

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Abernant
Neuadd Talog, 1af o Dachwedd 2018

Yn bresennol: Mr Ian Williams, Mrs Katrina Gabillia, Mr Eirian Howells, Mr Chris Bish

1. Sylwadau'r Cadeirydd: Mi wnaeth y Cadeirydd groesawu pawb i'r cyfarfod

2. Ymddiheuriadau am absenoldeb: Pawb yn bresennol

3. Cadarnhau cofnodion mis Hydref:

Cynnig: Mr Chris Bish

Eilio: Mrs Katrina Gabillia

4. Materion yn codi o'r cofnodion:

(a) Cyngor Cymuned wedi derbyn wybodaeth diweddaraf ynghlyn a digwyddiadau ar stad Lôn y Felin. Clerc i gadw mewn cysylltiad gydag Adran Tai y Cyngor Sir.

(b) Dim diweddariad ynghlyn a sefyllfa'r coed sy'n gordyfu ym mhentref Talog. Clerc i gysylltu gyda cwmni trydan - Western Power gan bod y coedwig yn agos iawn i wifrau trydan.

(c) Mae'r gwaith i'r llwybrau cyhoeddus yn cael ei brisio fyny.

(ch) Clerc i ofyn i'r Cyngor Sir am bin sbwriel ym mhentref Talog.

(d) Dim ymateb wrth BT ynghlyn a phryd bydd Band Lydan yn fyw. Clerc i gysylltu gyda BT.

dd) Angen i'r adran briffyrdd edrych ar rhoi arwydd 'Ildiwch' ger Abernant.

5. Gohebiaeth:

Cafodd nifer o llythyron ac e-byst sylw'r Cyngorwyr.

6. Diffibriliwr

Clerc i gysylltu gyda Cariad a mofyn am dyddiad i leoli'r diffibriliwr.

7. I'w drafod

(a) Mae angen i'r adran briffyrdd archwilio mewn i gyflwr yr hewl o Flaenycoed i Penrhiwlas.

(b) Mae angen tarmac ger mynedfa Posty Isaf

(c) Gwter wedi suddo ym mhentrefl Talog .

(ch) Clerc i mofyn eto i'r Cyngor Sir i lenwi'r gwteri r yr hewl o Talog i Gapel Bethania.

(d) Angen gwirio golau stryd ym mhentref Talog.

Cyngorwyr yn derbyn datganiad o ddiddordeb gan ddau aelod - un o'r gymuned a'r llall tu allan i'r gymuned i fod yn Gynghorwyr ar Gyngor Cymuned Abernant. Clerc i ddanfôn llythyr atynt i'w gwahodd i'r cyfarfod ym mis Rhagfyr.

8. Taliadau:

HMRC - £62.60

Arian i bawb - £7,000

Terfynwyd y Cyfarfod am 9.00yh. Cyfarfod nesaf i'w gynnal ar 6ed o Rhagfyr yn Ysgol Abernant am 7.30yh.